

Adroddiad Blynyddol y Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer 2019-20 i Gomisiynydd y Gymraeg

Mawrth 2021

Cynnwys

1	Crynodeb	3
2	Ein cynllun	4
3	Cyflawni – trosolwg cyffredinol	5
4	Cynnydd	6
5	Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella	10
6	Edrych ymlaen – diwygio'r cynllun	11

Sut i lywio'r ddogfen hon ar sgrin



i ddod â chi yn ôl i'r cynnwys

1 Crynodeb

Cyflwyniad

- 1.1** Yr FCA yw'r rheoleiddiwr ymddygiad ar gyfer bron i 60,000 o gwmnïau gwasanaethau ariannol a marchnadoedd ariannol yn y DU a'r goruchwyliwr darbodus ar gyfer 49,000 o gwmnïau; mae dros 10,000 o'r cwmnïau hyn wedi'u lleoli yng Nghymru.
- 1.2** Ein hamcan strategol yw sicrhau bod y marchnadoedd perthnasol yn gweithio'n dda a'n hamcanion gweithredol yw:
- Diogelu defnyddwyr – rydym yn sicrhau lefel briodol o ddiogelwch i ddefnyddwyr
 - Diogelu marchnadoedd ariannol – rydym yn diogelu ac yn gwella uniondeb system ariannol y DU
 - Hyrwyddo cystadleuaeth – rydym yn hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol er budd defnyddwyr
- 1.3** Yr ydym yn gorff cyhoeddus annibynnol a ariennir yn gyfan gwbl drwy godi ffi ar y cwmnïau yr ydym yn eu rheoleiddio. Yr ydym yn atebol i'r Trysorlys, sy'n gyfrifol am system ariannol y DU, ac i'r Senedd.
- 1.4** Diffinnir ein gwaith a'n diben gan Ddeddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd 2000 (FSMA). Rydym yn gweithio gyda grwpiau defnyddwyr, cymdeithasau masnach a chyrrff proffesiynol, rheoleiddwyr domestig, deddfwyr yr UE ac ystod eang o randdeiliaid eraill. Gyda'r cylch gwaith helaeth hwn, rydym yn defnyddio dull cymesur o reoleiddio, gan flaenoriaethu'r ardaloedd a'r cwmnïau sy'n peri risg uwch i'n hamcanion. Mae gennym ddyletswydd o dan y Ddeddf Marchnadoedd Gwasanaethau Ariannol (FSMA) i ddefnyddio ein hadnoddau'n economaidd ac yn effeithlon.
- 1.5** Mae ein pencadlys yn Llundain, lle mae tua 4,000 o staff wedi'u lleoli, gan ddarparu gwasanaethau i gwmnïau ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- 1.6** Diben yr adroddiad hwn yw rhoi trosolwg o gynnydd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) o ran cyflawni'r Cynllun Iaith Gymraeg yn ystod 2019-20.

2 Ein cynllun

- 2.1** O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun, sy'n nodi sut y byddant yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg. Cafodd ein cynllun presennol gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg o dan adran 14(1) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar 31 Mai 2017.
- 2.2** Mae'r cynllun yn disgrifio sut y byddwn yn rhoi effaith, cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, i'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Mae hefyd yn ystyried dyletswydd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol o dan Ddeddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd 2000, fel y'i diwygiwyd, i ddefnyddio ei adnoddau'n economaidd ac yn effeithlon.
- 2.3** Mae'r cynllun yn ymdrin â'r gweithgareddau a'r gwasanaethau a ddarparwn neu a fwriedir ar gyfer aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru, neu wasanaethau a ddarperir yn ehangach ac sy'n cynnwys Cymru. Yn y cynllun hwn, ystyr y term 'cyhoedd' yw unigolion, personau cyfreithiol a chyrrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, neu ran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys mudiadau gwirfoddol ac elusennau. Mae cyfarwyddwyr ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd o fewn ystyr y term 'cyhoedd'. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys personau sy'n gweithredu mewn swydd sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth na'r Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw personau sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur gyhoeddus, hyd yn oed os ydynt yn 'personau' cyfreithiol, yn dod o fewn ystyr y gair 'cyhoeddus' pan fyddant yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.

3 Cyflawni – trosolwg cyffredinol

- 3.1** Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu blwyddyn olaf cyflawni ein cynllun presennol, gyda chefnidir pandemig Covid-19, sydd wedi effeithio ar ein bywydau i gyd, a pharatoadau ar gyfer diwedd cyfnod pontio Brexit, rydym wedi parhau i adeiladu a datblygu ein darpariaeth ddwyieithog.
- 3.2** Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gryfhau ac ehangu ein hallbwn Cymraeg ar sianeli cyfryngau cymdeithasol, gan sicrhau bod gwybodaeth bwysig i ddefnyddwyr Cymraeg eu hiaith ar gael yn rhwydd ac yn hygyrch. Fel rhan o'r newid i blatfform RegData, sy'n disodli system Gabriel, bydd cwmnïau'n cael eu mudo dros gyfnod o amser, i helpu cwmnïau o Gymru i ddeall sut y bydd hyn yn digwydd, roedd nodiadau canllaw pwysig ar gael yn Gymraeg. Mae tudalen we Gymraeg newydd ar system RegData bellach ar gael hefyd.
- 3.3** Tua diwedd y flwyddyn, gan fod effaith ariannol y pandemig yn dechrau dod yn glir, cynhyrchwyd taflen i ddefnyddwyr yn Gymraeg, gan dargedu'r rhai a allai fod yn ei chael hi'n anodd rheoli eu harian. Fel rhan o'n hymgyrch i ddosbarthu'r wybodaeth hanfodol hon, cysylltwyd â nifer o sefydliadau cymorth, asiantaethau ac unigolion yng Nghymru gyda'r nod o sicrhau dosbarthiad mor eang â phosibl.

4 Cynnydd

4.1 Mae'r adran hon yn rhoi darlun o gynnydd o fewn meysydd allweddol y cynllun

Ymdrin â'r cyhoedd yng Nghymru

Gohebiaeth

- 4.2** Fel y disgrifir yn ein cynllun, rydym yn parhau i groesawu gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan sicrhau, pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, y byddwn yn ymateb yn Gymraeg (os oes angen ateb). Mae ein hamser targed ar gyfer ymateb yn Gymraeg yr un fath ag ar gyfer gohebiaeth a dderbynnir yn Saesneg.
- 4.3** Er mwyn hyrwyddo'r ymrwymiad hwn, mae datganiad wedi'i gynnwys ar ein gohebiaeth awdurdodi swyddogol gyntaf gyda chwmmi, unigolyn, grŵp neu sefydliad yng Nghymru.
- 4.4** Pan fydd unigolyn, cwmni, grŵp neu sefydliad yn dweud wrthym eu bod yn dymuno derbyn gohebiaeth gyffredinol yn Gymraeg, mae ein sgriniau set ddata gwybodaeth yn cynnwys blwch ticio 'Y well ganddynt ohebiaeth yn Gymraeg'.
- 4.5** Mae'r FCA yn cadarnhau nad yw fersiynau Cymraeg o ohebiaeth yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r fersiynau Saesneg cyfatebol, sy'n cynnwys y bydd gohebiaeth Gymraeg yn cael ei llofnodi (os yw'r fersiwn Saesneg wedi'i llofnodi).

Cyfathrebu dros y ffôn

- 4.6** Mae'r opsiwn iaith Gymraeg ar ein prif linell gymorth ffôn yn cynnwys neges yn Gymraeg sy'n amlinellu'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg. Byddwn yn ceisio ystyried sut y gellir gwella'r gwasanaeth hwn fel rhan o'n hymrwymadau yn y cynllun iaith Gymraeg wedi'i ddiweddarau.

Cyfarfodydd cyhoeddus ac ymgysylltu eraill â'r cyhoedd yng Nghymru

- 4.7** Er na gynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd na digwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r cynllun yn ymrwymo ein bod:
- Yn darparu gwahoddiadau dwyieithog i gyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru a hysbysu'r rhai sy'n mynychu y croesewir defnydd o'r Gymraeg yn y digwyddiad
 - Yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg pan gynhelir cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru fel y gall cyfranogwyr ddewis cymryd rhan yn eu dewis iaith
- 4.8** Wrth symud ymlaen, gyda chyfarfodydd a digwyddiadau wyneb yn wyneb bellach yn llai tebygol o gael eu cynnal yn y dyfodol agos, byddwn yn ystyried, fel rhan o adolygiad y cynllun, sut i sicrhau bod yr iaith yn cael ei hystyried fel rhan o unrhyw gyfarfodydd a digwyddiadau ar-lein a drefnir yn benodol ar gyfer unigolion, cwmnïau a sefydliadau yng Nghymru.

Ein hwyneb cyhoeddus

Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, hysbysebu a chyhoeddiadau defnyddwyr

- 4.9** O fewn ein Cynllun, rydym yn ymrwymo, wrth gynnal ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a gweithgareddau hysbysebu wedi'u hanelu at y cyhoedd yng Nghymru fel rhan o weithgarwch ledled y DU, y byddai deunydd perthnasol yn ddwyieithog, neu y darperir fformatau Cymraeg a Saesneg ar wahân.
- 4.10** Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd ein hymgyrch allweddol yn canolbwyntio ar arwain defnyddwyr sy'n ei chael hi'n anodd gwneud ad-daliadau oherwydd effaith pandemig Covid-19 i gysylltu â'u benthycwyr i drafod yr opsiynau sydd ar gael iddynt.
- 4.11** Mae'r FCA yn gwybod, oherwydd effaith y pandemig, y gallai llawer o'r rhai sydd wedi profi newidiadau mewn cyflogaeth a mwy o straen ddisgyn ar ei hôl hi gyda'u taliadau.
- 4.12** Mae'r FCA wedi cynhyrchu taflen i ddefnyddwyr a allai fod yn ei chael hi'n anodd rheoli eu harian, a gynhyrchwyd yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gofynnwyd i dros 175 o sefydliadau, asiantaethau ac unigolion yng Nghymru i ddsbarthu'r daflen defnyddwyr yn eu rhwydweithiau. Mae asedau cyfryngau cymdeithasol Cymraeg hefyd wedi'u cynhyrchu i godi ymwybyddiaeth o'r ymgyrch.
- 4.13** Yn unol â'r ymrwymiad a wnaed yn ein Cynllun, cyhoeddwyd ein Hadroddiad Blynyddol, ein prif ddogfen gorfforaethol, yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg.
- 4.14** Mae ein Cynllun yn cymryd ymagwedd wahanol, fwy rhagweithiol sy'n ystyried bod angen i ni ganolbwyntio ein hadnoddau'n gyfrifol. Rydym bellach yn seilio ein hymagwedd ar sicrhau bod cyhoeddiadau generig ar gael yn ddwyieithog drwy adlewyrchu natur cwmnïau cofrestredig sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn ôl math.
- 4.15** Mae'r rhestr o gyhoeddiadau sydd ar gael ar ein gwefan – www.fca.org.uk
- 4.16** I ategu ein hymagwedd, gwnaethom hefyd ymrwymo i ymateb i geisiadau penodol am gyhoeddiadau dwyieithog fesul achos ac wrth ystyried sicrhau bod y deunydd ar gael yn Gymraeg, lle mae hynny'n rhesymol ymarferol a lle mae galw am y cyhoeddiad penodol hwnnw. Bydd ystyriaethau'n cynnwys perthnasedd cyhoeddi i natur y cwmnïau cofrestredig sydd wedi'u lleoli yng Nghymru – yn ystod y cyfnod adrodd, ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau o'r fath.
- Y Wefan**
- 4.17** Mae gennym adran bwrpasol ar gyfer y Gymraeg ar wefan yr FCA, mae hon yn ganolbwynt i'r holl ddeunydd sydd ar gael yn Gymraeg. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg, dolenni i gyhoeddiadau a ffurflenni dwyieithog, yn ogystal â'n Cynllun a'n Cynllun Gweithredu. Mae'r adran Gymraeg ar gael yn rhwydd o'r hafan.
- 4.18** Dros y cyfnod adrodd, rydym wedi cofnodi cyfanswm o 7,262 o ymweliadau â'r adran Gymraeg, sydd yn gynydd bach ar y nifer a gofnodwyd yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol.

Cyfyngau cymdeithasol

4.19 Eleni, gwelwyd cynnydd sylweddol arall yn nifer y trydariadau Cymraeg a gyhoeddwyd ar y ffrwd Twitter gorfforaethol Gymraeg bwrpasol - @FCACymru. Gyda nifer y dilynwyd yn cynyddu'n gyson, yn ystod y flwyddyn cafodd 284 o drydariadau eu postio gan ddarparu gwybodaeth berthnasol a diweddariadau a chyfeirio ar gyfer dilynwyd Cymraeg eu hiaith. Ein nod yw sicrhau bod dilynwyd yn gallu cael gafael ar y wybodaeth ddiweddaraf, yn enwedig am ymgyrchoedd a chyhoeddiadau pwysig yn Gymraeg os mai dyma yw eu dewis.

Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig

4.20 Rydym yn seilio ein hymagwedd o sicrhau bod ffurflenni ar gael yn ddwyieithog drwy adlewyrchu natur cwmnïau cofrestredig sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn ôl math, mae'r rhestr o ffurflenni sydd ar gael ar ein gwefan.

4.21 O fewn ein Cynllun, rydym hefyd yn ymrwymo i adolygu sut y gallem, ymhen amser, gynyddu argaeledd ffurflenni ar-lein dwyieithog. Fodd bynnag, fel rhan o'n symudiad tuag at helpu cwmnïau a mabwysiadu dull mwy digidol fel sefydliad rydym yn tynnu ffurflenni o'n gwefan yn araf ac yn eu hintegreiddio i 'Connect', ein system a ddiogelir gan gyfrinair.

Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

4.22 Rydym wedi ymrwymo i ddarparu hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfyngau tebyg) a ddosberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, ar ffurf ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hysbysiadau yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg.

4.23 Yn ystod y cyfnod adrodd ni wnaethom gyhoeddi unrhyw hysbysiadau swyddogol perthnasol, hysbysiadau cyhoeddus na hysbysiadau recriwtio staff.

Codi ymwybyddiaeth

4.24 Rydym wedi parhau i hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg drwy hysbysu'r cyhoedd yng Nghymru drwy ohebiaeth, ar ein neges gwybodaeth ffôn Gymraeg, ar ein gwefan a'n ffrwd Twitter Cymraeg.

Gweithredu'r Cynllun

Staffio, recriwtio, hyfforddiant iaith a hyfforddiant galwedigaethol

4.25 Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw swyddi o fewn strwythur staffio'r FCA lle ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn 'hanfodol' neu'n 'ddymunol'. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod darpariaethau'r Cynllun yn cael eu cyflawni, ac rydym bellach wedi comisiynu cymorth a gallu allanol i roi'r arbenigedd a'r arweiniad angenrheidiol i'r FCA.

Trefniadau mewnol

4.26 Mae'r cynllun a'r ymrwymadau a wnaed o'i fewn yn dwyn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn ein Pwyllgor Gweithredol ac fe'u cymeradwyir gan y Prif Weithredwr. Rydym wedi sefydlu Grŵp Llywio i oruchwylio'r gwaith o gydlynu a

chyflawni'r Cynllun a'r Cynllun Gweithredu, mae rheolwyr yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith.

- 4.27** Yr adran Busnes a Chyfathrebu Defnyddwyr sy'n gyfrifol am fonitro gweithrediad y cynllun, ac mae hyn yn galluogi i'r FCA sicrhau lefel o gysondeb o fewn yr adran sy'n bennaf gyfrifol am ein gwaith sy'n wynebu'r cyhoedd.

5 Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella

- 5.1** Rydym yn falch o adrodd na chawsom unrhyw gwynion mewn perthynas â'n gwasanaethau Cymraeg yn ystod y cyfnod adrodd. Hyd yma, ac yn y pedair blynedd ers i'r FCA gymryd cyfrifoldeb am weithredu'r cynllun, nid ydym wedi derbyn yr un gŵyn gan y cyhoedd mewn perthynas â'r Gymraeg.

6 Edrych ymlaen – diwygio'r cynllun

- 6.1** Er ein bod yn credu bod cynllun presennol yr FCA yn gynhwysfawr a'i fod wedi gweld cynnydd sylweddol yn amlygrwydd yr iaith o fewn yr FCA, mae'r adolygiad arfaethedig yn gyfle i adeiladu ar y llwyddiant hwn.
- 6.2** Mae'r adolygiad yn mynd rhagddo, gyda'r ffocws yn cael ei roi ar feysydd allweddol lle credwn y gallwn gryfhau ein hymrwymadau ymhellach megis ffurflenni a gwasanaethau ffôn. Byddwn hefyd yn ceisio cryfhau ein dull o ddarparu gwasanaethau Cymraeg i unigolion, cwmnïau a sefydliadau yng Nghymru gyda'r cynnig rhagweithiol o wasanaethau Cymraeg.

